**Andrew Davies AM/AC**
**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Finance and Public Service Delivery**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Darren Millar
AC dros Orllewin Clwyd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Mawrth 2009

Annwyl Darren,

**Ymateb Gweinidogol i faterion a godwyd yn ystod trafodaeth y cyfarfod llawn ar fesurau a gymerwyd i ddiogelu data personol ar ddydd Mercher 04 Mawrth 2009.**

Yn ystod y drafodaeth uchod gwnaethoch ofyn p'un a gymerwyd unrhyw gamau disgyblu yn erbyn cyflogeion sydd wedi trin data mewn modd anghyfrifol, yn y GIG neu mewn unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall.

Gallaf gadarnhau bod polisïau diogelwch Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys torri cod diogelu data yn y rhestr o ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn gamymddwyn. Cyfeirir pob achos o'r fath at yr adran Adnoddau Dynol iddi ystyried camau disgyblu priodol.

O ran y GIG, ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeiryddion y GIG ym mis Gorffennaf 2008 i'w hatgoffa o'u dyletswydd gofal i gleifion wrth ddiogelu eu gwybodaeth a'u cyfrinachedd. Yn y llythyr, noda'r Gweinidog:

"Ystyriaf fod colli gwybodaeth gyfrinachol yn fater disgyblu. Os bydd unrhyw aelod o'ch sefydliad yn methu â diogelu cofnodion cleifion, disgwyliaf i reolwyr gymryd camau ar unwaith."

Er bod Llywodraeth y Cynulliad yn cadw cofnodion canolog ar yr holl achosion disgyblu sy'n cynnwys ei staff ei hun, mater i'r cyflogwr a'r cyflogai yw datrys materion disgyblu o fewn y GIG ac felly ni chânt eu cofnodi na'u cadw'n ganolog gan Lywodraeth y Cynulliad.

Gwnaethoch ofyn a yw polisïau a gweithdrefnau ar gyfer trin data personol yn gyson ledled Cymru, o fewn y GIG ac o ran pob gwasanaeth cyhoeddus.

Gallaf gadarnhau bod gan sefydliadau yng Nghymru gyfrifoldeb cyfreithiol o dan y Ddeddf Diogelu Data ar gyfer rheoli unrhyw ddata personol a gedwir ganddynt. Rhaid iddynt gofrestru eu hunain fel Rheolwyr Data gyda Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Swyddfa yn cyhoeddi canllawiau i Reolwyr Data eu dilyn ac mae ar gael i roi cyngor a chanllawiau.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod lle i gael dull mwy cyson o weithredu ac mae'n cefnogi'r camau a argymhellwyd gan Lywodraeth y DU yn y maes hwn nas datganolwyd ac yn ei hymateb i'r Adroddiad Adolygu ar Rannu Data dyddiedig 24 Tachwedd 2008. Yn yr ymateb hwn, ymhlith pethau eraill, argymhellodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth sylfaenol newydd i roi dyletswydd statudol ar y Comisiynydd Gwybodaeth i gyhoeddi cod ymarfer rhannu data a ddylai bennu meincnod ar gyfer safonau canllawiau. Mae hefyd yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth newydd ganiatáu i'r Comisiynydd Gwybodaeth gefnogi materion sy'n benodol i'r cyd-destun sy'n ymhelaethu ar y cod mewn ffordd gyson.

Yn hanesyddol byddai Ymddiriedolaethau'r GIG, fel sefydliadau annibynnol, yn llunio eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru; a Caldicott.

Mae Caldicott yn adnodd rhagorol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â thrin data cleifion ac mae'n God Ymarfer gorfodol (a foderneiddiwyd ym mis Tachwedd 2008) i GIG Cymru.

Gwnaethoch hefyd ofyn a oedd pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei ystyried i Gymru.

Mae'r pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth cyfredol yn adnodd ac yn broses asesu a ddatblygwyd gan Loegr ar gyfer Lloegr ac fe'i cynhelir gan Connecting for Health (CfH). Er mwyn iddo gael ei ddefnyddio yng Nghymru byddai'n rhaid cynnal adolygiad a gwneud newidiadau sylweddol i gymhwyso'r pecyn cymorth i'w ddefnyddio yn unol â Pholisi Cymru.

Mae GIG Cymru wedi buddsoddi ei adnoddau a'i asesiadau yn seiliedig ar atebolrwydd lleol. Yn arbennig ar gyfer GIG Cymru, mae hyn wedi cynnwys defnyddio a hyrwyddo Caldicott sy'n cwmpasu llawer o'r gweithgareddau a gynhwysir yn y pecyn cymorth, gan gynnwys adroddiadau blynyddol ar statws a gwelliannau parhaus ym maes cyfrinachedd. Mae hefyd archwiliadau Cymru a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Byddai mabwysiadu pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth (fel y mae) yn dyblygu ymdrech sefydliadol ar draul gweithgareddau eraill. Fodd bynnag, mae potensial o hyd i gysylltu â'r Alban a Lloegr yngl• n â deunyddiau a allai fod o ddefnydd ychwanegol o fewn y pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, y gellid naill ai eu hymgorffori â Caldicott neu eu datblygu ar wahân fel pecyn cymorth bach - byddai hyn yn gofyn am adnoddau yng Nghymru a chyd-drafod â CfH.

Gwnaethoch ofyn a oedd system rheoli gwybodaeth ar waith i gofnodi achosion o golli data o fewn y GIG, a hysbysu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r achosion hynny.

Mae'r rhan fwyaf o Ymddiriedolaethau yng Nghymru yn defnyddio DATIX fel system monitro digwyddiadau sydd, yn ogystal â chofnodi nifer o fathau gwahanol o ddigwyddiadau, yn nodi achosion o golli data fel y rhain a amlygwyd. Mae Ymddiriedolaethau hefyd yn cydymffurfio â Pholisïau a allai gynnwys rhoi gwybod am 'ddigwyddiadau anweddus difrifol' a all gynnwys 'tor-cyfrinachedd difrifol'.

Mae'r Is-adran Safonau Ansawdd a Gwella Diogelwch o fewn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad yn cadw cofnod electronig o'r holl Ddigwyddiadau Difrifol o fewn y GIG, fel y cyflwynwyd adroddiad arnynt gan y GIG. Rhoddir gwybod am rai achosion o dorri gweithdrefnau diogelu gwybodaeth o fewn y broses hon.

Hyderaf fod hyn yn egluro'r sefyllfa ond os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir
Andrew